

### **Cystadleuaeth Cyfansoddi cainc dan 25:**

Daeth tair cainc i law ar gyfer y gystadleuaeth, a'r dair yn cynnwys nodweddion addawol iawn. Cyn rhoi fy marn ar gynnwys y ceinciau, credaf fod angen gosod fy meini prawf, sef fy marn innau o beth sydd yn gwneud cainc lwyddiannus.

- 1) Mae angen i bob cainc gael cymeriad amlwg er mwyn ei pharu yn llwyddiannus gyda cherdd o naws debyg a chyfoethogi'r datganiad.
- 2) Mae angen i bob cainc allu sefyll ar ei phen ei hun fel cyfansoddiad. Golyga hyn fod angen iddi gael alaw gofiadwy yn ogystal â chyfresi harmonig diddorol.
- 3) Mae angen i'r dôn a'r cordiau symud yn naturiol heb ormod o gymhlethdod er mwyn hwyluso gwaith y gosodwr a'r datgeinydd.
- 4) Mae angen cywirdeb cerddorol o ran nodiant a rheolau harmoni.

Mae Lleifior yn llwyddo i ateb bob un o'r gofynion, ac mae ynddi alaw naturiol a chordiau cynnes braf. Mae'r gainc yn un sy'n llifo'n rhwydd a byddai yn sicr modd gosod ar hon heb drafferth. Petai hon yn cael ei chyhoeddi, serch hynny, buaswn i yn newid ambell nodyn yn llinell y bâs fel bod 7fed y cord yn disgyn i'r nodyn islaw ar gyfer y cord nesaf (gweler far 5, 11 a 12). Mae yna hefyd un man bach yn y llinell felodig sydd yn chwithig iawn, sef yr F# yn nodyn olaf bar 15 yn symud i'r F naturiol. Mae'r F naturiol a'r Bb yng nghord olaf bar 16 yn lliwio'r harmoni yn effeithiol iawn, felly buaswn i yn addasu'r nodau yng nghord olaf bar 15.

Mae Bryn Afon gan Celyn yn gosod naws hyfryd yn ei bariau agoriadol. Mae alaw adran 1 yn llifo'n ganadwy, ond collir y naws yn yr ail adran. Mae'r newid cywair ar ddechrau adran 2 yn effeithiol, ond mae'r trawsgyweirio yn ôl i'r cywair gwreiddiol braidd yn sydyn. Byddai hyn yn gosod tipyn o her i'r gosodwr a'r datgeinydd. Er hyn, mae cynnwys yr Eb a'r Db yn effeithiol wrth gloi y gainc.

Mae cyfansoddwr Bethel wedi cynnwys cyfarwyddiadau pedalu ar gyfer y telynor yn y gainc, a braf gweld hyn. Er hynny, ni allaf weld diben defnyddio Ab yn hytrach na G# yn y cordiau yn adran 1. Mae sawl man lle ceir llawer o ddychymyg a diddordeb yn nilyniannau harmoni y gainc hon, ond mae yna le i wella melodi'r gainc, gan nad oes naturioldeb yn ei llif cerddorol, yn enwedig yn adran 2, sydd yn gymhleth iawn o ran neidiadau.

O edrych ar y dair cainc felly, dyfernir y ceinciau fel a ganlyn:

- 1af: Lleifior
- 2il: Bryn Afon
- 3ydd: Bethel

## Cystadleuaeth gosod dan 25:

Tri chystadleuydd yn unig a gyflwynodd osodiad ar gyfer y gystadleuaeth hon. Y gofynion oedd gosod cerddi ar gyfer cystadleuth unawdau cerdd dant Eisteddfod yr Urdd 2018 y plant ieuengaf, nail ai blwyddyn 2 ac iau neu blwyddyn 3 a 4. Tasg hyfryd yn fy marn i, gan fod y ceinciau dan sylw mor bleserus ar gyfer gosod arnyn nhw, a digon o gyfleoedd i liwio geiriau yn y cerddi.

Wrth feinrniadu'r gystadleuaeth, rwyf wedi ystyried y meini prawf canlynol:

- 1) Rhaid i'r gerdd gael ei chorfannu yn gywir ac yn naturiol.
- 2) Rhaid dilyn rheolau'r grefft yn gydwybodol.
- 3) Mae angen ystyried oedran y datgeinydd – bydd hyn wrth gwrs yn rhoi cyfyngiadau ar y cwmpawd lleisiol gyda phlant iau, ac yn golygu na ellid bod yn rhy heriol. Bydd angen dewis nodau hawdd ar gyfer taro i fewn gan na fyddai llawer o brofiad gan y cantorion.
- 4) Dylai nodau'r gosodiad lifo yn hollol naturiol heb neidiadau lletchwith a di-angen.
- 5) Dylai nodau'r gosodiad adlewyrchu'r geiriau bob amser gan wneud y gwaith o gyfleu ystyr y gerdd yn hawdd.
- 6) Mae angen i rythmau'r gosodiad ddilyn rhythmau tebyg i'r rhythmau naturiol y byddai rhywun yn eu defnyddio wrth siarad

Dewisodd ddau gystadleuydd osod y gystadleuaeth Unawd blwyddyn 3 a 4, sef Ffwl Ebrill ar y gainc Hawys. Un o'r rhain oedd Awelon, a lwyddodd yn wych i ystyried oedran wrth osod. Mae'n taro i fewn yn ddi-drafferth ac mae'r cwmpawd lleisiol yn gyfyng, gan gyflwyno ambell naid amserol pan fod y geiriau yn gofyn am hynny – “amser i ti **godi**” ym mhennill 1, ac yn y diwedd glo. Hoffais yn fawr iawn y nodyn cromatig yn y pennill olaf wrth i mam wenu. Erystal y gosodiad, roedd un gwall ynddo, sef fod y gosodiad yn dilyn melodi'r gain car y ddau nodyn olaf. Hefyd, anghytunaf â'r rhythm ar nodau “Nain Bry-gwyn” ar ddiwedd yr ail bennill - afyddai dau grotchet cytbwys yn well na'r rhythm dotiog tybed? Yn gyffredinol, dyma oedd gosodiad arbennig oedd wedi ystyried oed y datgeinydd wrth gyfansoddi. Byddai unrhyw blentyn wrth ei fodd yn dysgu hwn, rwy'n siwr.

Cafwyd gosodiad da iawn gan Bron y Fedw hefyd ar y geiriau Ffwl Ebrill. Dewisodd nodau addas o fewn cwmpawd lleisiol plentyn o'r oedran hwn, gan adlewyrchu'r geiriau mewn sawl man e.e. codi i nodau uchel ar “Mae wedi saith!” wrth I dad godi ei lais. Mae'r nodau taro i fewn yn y ddau bennill cyntaf yn effeithiol a naturiol, ond wrth daro i fewn yn y pennill olaf, mae wedi dewis nodau heriol dros ben ar gyfer yr oedran ifanc. Yn anffodus, mae yna ambell wall lle bydd y gosodiad yn dyblu'r gainc – dechrau pennill 2, “Nid oeddwn i yn deal”, ac hefyd wrth daro i fewn yn y bennill olaf (mae'r gosodiad yn dilyn llinell y bas fan hyn.. Fel arfer, does dim gymaint o ots am hyn, ond gan fod llaw dde y delyn yn llonydd yn ystod y rhan yma, mae'r dyblu yn rhy amlwg). Anghytunaf â'r dewis o rhythmau mewn ambell fan, sef p.2 “Am **fynd at** Nain Bryngwyn” (byddai cwafer dotiog a hanner cwafer yn well yma) a “Daeth Dad o'i **waith, ac** meddai...” (cwafer dotiog a hanner cwafer yma hefyd).

Gosododd Ehedydd ‘Tyfu’ ar gyfer y plant ifancaf. Llwyddodd Ehedydd i ddewis rhythmau addas ar gyfer y geiriau ar y cyfan, heblaw am ambell hanner cwafer ar ddechrau llinellau, lle byddai cwafer wedi bod yn fwy naturiol (Wrth daro i fewn ym mhennill 1 a 2 a'r un fath yn nodau olaf bar 8 yn y ddau bennill cyntaf. Yn gyffredinol, teimlaf fod diffyg profiad y gosodwr yma yn golygu ei fod yn gor-gymhlethu y linell felodig. Er fy mod yn hoffi nodau cromatig mewn gosodiadau, dylid eu defnyddio at bwrpas ac yn sicr ni ddylid eu gor-ddefnyddio, a dyma'r perygl yma. Mae'r nodyn cromatig ar ddiwedd pennill 2 yn hyfryd, ond buaswn i yn ail-feddwl ac ystyried oes angen y gweddill, sydd nid yn unig yn ddi-bwrpas braidd ac yn heriol iawn i blentyn yn y Cyfnod Sylfaen. Cymerwch ofal rhag dilyn nodau'r gainc gyda'r gosodiad fel sydd ym mar 22-23 pennill 4 (“**Ond pan** fydda i wedi tyfu”).

O edrych ar y tri gosodiad felly, dyfernir nhw fel a ganlyn:

1af: Awelon

2il: Bron y Fedw

3ydd: Ehedydd